# Rhaglen Adloniant

# Gŵyl Caws Caerffili 2024

# Dydd Sadwrn 31 Awst & Dydd Sul 1 Medi

| Lleoliad | Atyniad |
|---|---|
| Canol y dref a Heol Cilgant | Rhaglen Gerddoriaeth |
| Canol y dref | Stondinau chrefft a wybodaeth |
| Heol Cilgant | Neuaddau Bwyd |
| Heol Cilgant | Ffair Caws |
| Canol y dref a Heol Cilgant | Bwyd Stryd |
| Canol y dref | Barrau Unigryw |
| Canol y dref | Mannau bwyta ac yfed awyr agored |
| Canol y dref | Marchnad Crefftwyr Caerffili |
| Canol y dref | Ffair Grefftau Caerffili gan Crafty Legs |
| Canol y dref | Marchnad Crefft a Bwyd Cwrt y Castell |
| Canol y dref | Rhaglen Adloniant Llwyfan Cwrt y Castell |
| Starts at Crescent Road and finishes in the Town Centre | Ras y Caws Caerffili |
| Heol Cilgant | Paentio wynebau a tatws Glitter Tattoos |
| Heol Cilgant | Plethu gwallt |
| Heol Cilgant | Falconry UK |
| Heol Cilgant | Reidiau ar gefn asynnod |
| Heol Cilgant | Fferm anwesu |
| Heol Cilgant | Reidiau ac atyniadau ffair hwyl |
| Heol Cilgant | Gweithdai chrefft |
| Heol Cilgant | Sioeau Pwnsh a Jwdi |
| Heol Cilgant | Anifieiliad egsotig |
| Heol Cilgant | Cadair gynfas anferth |
| Heol Cilgant | Ardal Bicnic |
| Canol y dref | Parti Stryd Brew Monster |
| Heol Cilgant | The Mid Wales Ghostbusters |
| Heol Cilgant | Explore Learning |
| Canol y dref | Ffos Caerffili |
| Canol y dref | Llyfrgell Caerffili |
| Heol Cilgant | Air Tatts |

***Gall yr holl wybodaeth newid.**

## Rhaglen Gerddoriaeth



Bydd ardaloedd cerddoriaeth yng nghanol y dref a bydd Crescent Road dan ei sang gydag amrywiaeth o artistiaid unigol, deuawdau a bandiau. Bydd Llwyfan y Foneddiges Werdd a Llwyfan Ffos y Castell yn gartref i amrywiaeth o artistiaid yn perfformio fersiynau eu hunain o ganeuon pobl eraill a chaneuon gwreiddiol.

Ym Maes Parcio'r Twyn, bydd y prif lwyfan cerddoriaeth - Prif Lwyfan y Tŵr Cam - yn gartref i amrywiaeth o grwpiau a bandiau o'r radd flaenaf sy'n perfformio cerddoriaeth o bob cyfnod a phob math. Cyfle i gael dawns ac ymlacio! Cadwch lygad am y prif artistiaid eleni – Big Mac's Wholly Soul Band a Slipped Disco.

***Facebook: Visit Caerphilly***

## Neuaddau Bwyd



Mae'r neuaddau bwyd yn ôl ar gyfer 2024! Bydd dwy neuadd fwyd anferth ar yr ardal glaswelltog ar Crescent Road a bydd yn gartref i 50 o stondinau bwyd a diod. O seidr a gwirodydd i gacennau, olifau, jam, siytni a llawer mwy. Bydd cymaint i demtio'r blasbwyntiau a llenwi'r cypyrddau gyda llawer o gynhyrchion cartref.

*****Sylwer bod yr holl alcohol wedi'i brynu i'w yfed oddi ar y safle.**

***Facebook: Visit Caerphilly***

## Ffair Caws



Bydd ffair gaws fach yn cael ei lleoli ar yr ardal glaswelltog ar Crescent Road mewn 5 stondin caws melyn llachar! Bydd sesiynau blasu wrth law i'ch helpu chi i ddewis eich ffefrynnau!
Bydd Bath Soft Cheese Company Ltd yn gwerthu cawsiau crefftus sydd wedi ennill sawl gwobr ac sydd wedi'u gwneud â llaw ar eu fferm gan ddefnyddio llaeth o'u gwartheg eu hunain! Beth am brynu ychydig o gaws gafr o Bryngaer Goats, neu gaws ffermdy wedi'i wneud â llaw gan Bexton Cheese a The Cheese Wedge Co. Ltd. A phwy sy'n gallu gadael Gŵyl Caws Caerffili heb ychydig o 'Gaws Caerffili' enwog y dref, a fydd yn cael ei werthu gan Gwmni Cheddar Blaenafon!

**Facebook: Bath Soft Cheese, Blaenafon Cheddar Company, The Cheese Wedge Company., Bryngaer Goats**

## Stondinau Crefft a Gwybodaeth



Bydd tua 40 o stondinau crefft a gwybodaeth yn cael eu lleoli yng nghanol y dref gyda nwyddau cartref ac anrhegion creadigol, teganau, llawer o eitemau wedi'u gwneud â llaw yn ogystal â llawer o wybodaeth ddefnyddiol a stondinau elusennol.

***Facebook: Visit Caerphilly***

## Ras y Caws Caerffili, wedi'i noddi gan eInfinity Limited (Dydd Sadwrn yn unig)



EINFINITY

Mae Ras y Caws Caerffili, sydd wedi'i noddi gan eInfinity, yn dychwelyd yn dilyn galw mawr a bydd grwpiau o oedolion a phlant yn rasio mewn gwisg ffansi o gefn y castell, trwy Barc Dafydd Williams ac i'r dref gyda'u hestynwyr caws ac olwynion caws bychain yn y frwydr i gael eu coroni'n 'Bencampwyr Ras y Caws Caerffili 2024'! Edrychwch ar sianeli cyfryngau cymdeithasol Croeso Caerffili a Chwaraeon Caerffili i gofrestru timau! Bydd y rasys yn dechrau am 10am o Heol Cilgant a bydd digon o fannau gwylio gwych ar hyd y llwybr cyfan! Dewch draw i ymuno yn yr hwyl, mae gwobrau i'w hennill!

I gymryd rhan yn y Ras Caws Caerffli, cysylltwch â Chwaraeon Caerffili:
07919 627426
meredro@caerffili.gov.uk

***Facebook: Sport Caerphilly / eInfinity Limited***

## Ardal Bicnic



Eisteddwch ac ymlacio wrth wrando ar berfformiadau gwych yn ardal Llwyfan Ffos y Castell ar ardal laswelltog Crescent Road.

Bydd amgaefa ddiogel gyda blancedi picnic a chadeiriau cynfas ar gael i chi ymlacio ar ôl prysurdeb yr ŵyl wrth edrych ar gastell godidog Caerffili.

***Facebook: Visit Caerphilly***

## Bwyd Stryd



Ym Maes Parcio'r Twyn, lleoliad y prif lwyfan cerddoriaeth, bydd amrywiaeth o siopau bwyd stryd yn gweini prydau blasus! O gyw iâr llaeth enwyn wedi'i ffrio, Souvlaki a Tapas Sbaenaidd i tacos, nachos, rholiau porc, byrgyrs, cŵn poeth, prydau wok Tsieineaidd a brechdanau wedi'u grilio; bydd rhywbeth at ddant pawb! Bydd y masnachwyr arferol, Dinky Donuts a Signore

## Barrau Unigryw



Ym Maes Parcio'r Twyn, lleoliad y prif lwyfan cerddoriaeth, bydd amrywiaeth o farrau'n gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle. O seidr a lager i wirodydd a choctels, bydd rhywbeth at ddant pawb!

***Rhaid i unrhyw alcohol wedi'i brynu gael ei yfed yn y mannau dynodedig o fewn y barrau ac nid oes***

Twister, hefyd yng nghanol y dref gyda'u tatws ar ffurf troell hynod o flasus a thoesenni bach a dipiau!
***Facebook: Visit Caerphilly***

***modd ei gymryd allan i'w yfed ar rannau eraill o safle'r digwyddiad. Nid oes modd dod ag alcohol i safle'r digwyddiad. Rhaid prynu ac yfed yr holl alcohol yn y mannau yfed dynodedig.***

***Facebook: Visit Caerphilly***

## Mannau Bwyta ac Yfed Awyr Agored



Bydd mannau yfed a bwyta dynodedig ledled y dref, gyda busnesau lletygarwch lleol yn cymryd rhan. Bydd llawer o'r bwytai a'r lleoliadau yfed yng nghanol y dref yn creu mannau eistedd neu'n ehangu mannau eistedd presennol i groesawu ymwelwyr i eistedd, ymlacio, bwyta, yfed a mwynhau'r gerddoriaeth a'r adloniant sydd ar gael.

***Rhaid i unrhyw alcohol wedi'i brynu gael ei yfed yn y mannau dynodedig o fewn y barrau ac nid oes modd ei gymryd allan i'w yfed ar rannau eraill o safle'r digwyddiad. Nid oes modd dod ag alcohol i safle'r digwyddiad. Rhaid prynu ac yfed yr holl alcohol yn y mannau yfed dynodedig.***

***Facebook: Visit Caerphilly***

## Marchnad Crefftwyr Caerffili



Mae Marchnad Crefftwyr Caerffili yn arddangos y busnesau bach Cymreig mwyaf rhyfeddol. Bwyd blasus, celf hyfryd a chrefft hardd. Wedi'u gwneud yng Nghymru gyda chariad.

***Facebook: Caerphilly Artisan Market***

## Ffair Crefftau Caerffili gan Crafty Legs – Senotaff



Bydd y ffair grefftau fisol wedi'i lleoli islaw Coffi Vista ar bwys y senotaff a bydd yn gartref i tua 30 o grefftwyr. O gelf a chrefft i addurniadau cartref a gemwaith, bydd digonedd o anrhegion wedi'u gwneud â llaw yn lleol yn cael eu harddangos i chi ddod o hyd i'r anrheg anarferol ac unigryw hwnnw

***Facebook: Crafty Legs Events***

## Marchnad Crefft a Bwyd Cwrt y Castell



Mae Marchnad Crefft a Bwyd Canolfan Siopa Cwrt y Castell wedi'i lleoli gyferbyn â Chastell Caerffili yng Nghanolfan Siopa Cwrt y Castell. Mae'r farchnad fisol yn arddangos dros 25 o stondinau gan fusnesau bach o gwmpas De Cymru.

Mae pob crefftwr a chynhyrchydd bwyd yn gwneud ac yn creu eu heitemau eu hunain, gan wneud y farchnad yn gwbl grefftus.

Gyda nifer ardderchog o ymwelwyr misol, parcio am ddim am hyd at 3 awr ac awyrgylch croesawgar, mae Cwrt y Castell bob amser yn farchnad wych i ymweld â hi.

***Facebook: Castle Court Craft & Food Market. Caerphilly***

## Canolfan Siopa Cwrt y Castell Adloniant Bandstand



Bydd Bandstand Cwrt y Castell yn gartref i amrywiaeth rhagorol o berfformwyr cymunedol trwy gydol y dydd, gan gynnwys Rock Choir, Melody Makers a Chôr Meibion Caerffili ddydd Sadwrn a Caerphilly Community Chorus, Quickstep Fitness, Sera Manning ac SL Dance ddydd Sul.

***Facebook: Castle Court Shopping Centre, Caerphilly***
***Gwefan: www.castlecourtwales.co.uk***

## Air Tatts




Tatŵs dros dro â chwistrell baent a gliter wyneb ar gyfer gŵyl. Hwyl i bob oed, o 2 oed i 102 oed! Dewiswch o 9 cyfuniad lliw amrywiol, dros 500 o ddyluniadau; gliter neu ddim gliter, chi sy'n dewis! Mae'n cymryd ychydig funudau i'w wneud ac yn para hyd at 7 diwrnod - hyd yn oed yn hirach os nad ydych chi'n golchi'n aml iawn! Gwrth-ddŵr a heb boen! Hefyd, dewiswch ddu ac maen nhw'n edrych yn go iawn! Pob tatŵ – unrhyw faint, unrhyw ddyluniad – dim ond £4 yr un!

**Facebook: Air Tatts**

## Paentio Wynebau & Tatŵs Gliter

GLITTER GIRLS
BRING SOME SPARKLE

Trawsnewidiwch yn dywysog, tywysoges, archarwr neu anifail. Mae gan Glitter Girls y ddawn hudol i'ch trawsnewid chi'n gymeriad o'ch dewis, gan ychwanegu lliw a gliter i wneud i chi ddisgleirio!

***Facebook: Glitter Girls***

## Plethu Gwallt





Mae hi'n Ŵyl Caws Caerffili, felly mae'n amser ymdaflu'ch hun i ysbryd pethau! Dewiswch eich hoff liwiau a gleiniau ar gyfer eich plethiad gwallt gwych gan Charly's Braids a chroesawu hwyliau'r parti!

***Facebook - Charly's Braids***

## *Falconry UK*



Bydd adar ysglyfaethus yn cael eu harddangos i ymwelwyr edrych arnyn nhw, cael lluniau gyda nhw a dysgu am ffeithiau a chefndir hynod ddiddorol y creaduriaid rhyfeddol hyn!

***Facebook: Falconry UK***
***Gwefan: www.falconry-uk.org***

## *Reidiau ar gefn asynnod*



Mae plant wrth eu bodd â'r anifeiliaid blewog hyn. Reidiau am ddim ar gael trwy'r dydd!

***Facebook: Mike's Donkeys***
***Gwefan: www.mikesdonkeys.co.uk***

## *Fferm Anwesu*





Fferm anwesu AM DDIM i deuluoedd i ddod i adnabod creaduriaid del ac annwyl. Yn cynnwys geifr, defaid, ŵyn, asynnod bychain, cwningod a moch cwta. Gofynnwch gwestiynau am yr anifeiliaid annwyl hyn a dysgu am eu harferion.

***Facebook: Mike's Donkeys***
***Gwefan: www.mikesdonkeys.co.uk***

## *Gweithdai crefft creu a chymryd*



Dewch draw i wneud crefftau ar thema'r haf… o lolis iâ, hufen iâ a sundaes hufen iâ! Mae'r gweithdy hwn yn cynnig cyfle i blant fod yn greadigol a chael ychydig o hwyl AM DDIM!

**Facebook: Creative Workshops for Children**

## Cadair Gynfas Anferth



Neidiwch i'r gadair fawr hon a chael tynnu'ch llun. Rhannwch eich lluniau â ni ar Facebook, Instagram a Twitter (@VisitCaerphilly)!

***Facebook: Visit Caerphilly***

## Sioeau Pwnsh a Jwdi




Eisteddwch, ymlacio a chael hwyl yn gwylio'r sioe Pwnsh a Jwdi draddodiadol hon!

***Facebook: Paul Wheelers Punch and Judy Show***

## Anifeiliad egsotig





Swricatiaid, nadroedd, madfallod, pryfed cop, sgorpionau, chwilod duon hisian, malwod enfawr ac ati. Ardal ryngweithiol AM DDIM gyda sgyrsiau byr a chyfleoedd ymarferol drwy gydol y dydd.

***Gwefan: www.wildlifedisplays.co.uk***

## Parti Stryd Brew Monster




Bydd Lon-Y-Twyn Road ar gau am y penwythnos ac mae Brew Monster yn dod allan i chwarae!

Bydd man awyr agored gyda seddi ac addurniadau, ynghyd â bar awyr agored. Bydd parti wedyn y tu mewn i'r bragdy gyda'r nos gyda cherddoriaeth fyw. Dewch draw i ymuno yn yr hwyl!

***Facebook: Brew Monster Brewery & Tap***

## *The Mid Wales Ghostbusters*




Mae rhywbeth rhyfedd yn digwydd yng Nghaerffili ar 31 Awst a 1 Medi, a doedden ni ddim yn gwybod pwy i alw heblaw am y Ghostbusters chwedlonol! Bydd y tîm gwych hwn yn mynychu'r digwyddiad i godi arian hollbwysig i Ambiwlans Awyr Cymru. Bydd y plant wrth eu bodd yn cael tynnu eu llun wrth ymyl Ecto Un a Zuul the Terror Dog!

***Facebook: The Mid Wales Ghostbusters***

## *Explore Learning*

Gemau a gweithgareddau rhyngweithiol hwyliog sy'n cysylltu ag addysg.

***Facebook: Explore Learning***

## *Reidiau Ffair Hwyl*



Eleni, bydd ychydig bach mwy o Ŵyl y Caws Mawr yn dod i'r amlwg, wrth i ni gyflwyno ffair fach wrth gefn y castell. Bydd cwpl o reidiau mwy i bobl ifanc yn eu harddegau fel y Miami a Cage, a digonedd o reidiau i blant llai i ddiddanu pawb!

Rhestr llawn o reidiau:

1. Miami
2. Dodgems
3. Meteorite Machine
4. Mini Wheel
5. Hoopla
6. Mini Paratrooper
7. Juvenile Bumper Cars
8. Mini Coaster
9. Mini Waltzer
10. Chair-o-Planes
11. Toy Ride
12. Cottage/Funhouse
13. Trampoline/Play Area
14. Sweet & Candy Floss Unit
15. Frogs
16. Twist

| | |
|---|---|
| 17. Bungee Trampolines<br>18. Hook-a-Duck<br><br>***Facebook: www.facebook.com/SouthWalesFunDays*** | |

***(Gall yr holl wybodaeth newid. Mae'r wybodaeth yn gywir ar adeg cyhoeddi'r wybodaeth.)***